

Nodiadau Cyfarfod

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA), 17 Tachwedd 2021

Dyma grynodedb o'r drafodaeth a gafwyd yn y cyfarfod rhwng y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd ac WCVA ar 17 Tachwedd:

- Disgrifiodd y Dirprwy Weinidog ei argraffiadau o COP26. Roedd y cynrychiolwyr yn y cyfarfod yn falch bod Gweinidogion a 'Thîm Cymru' gymaint yn fwy gweladwy yn y COP eleni o'i gymharu â blynyddoedd cynt, a'u bod wedi gwneud defnydd rhagweithiol o'r cyfryngau cymdeithasol a'u gweithgarwch gyda'r wasg.
- Rhannwyd y syniadau canlynol ynghylch sut y gallai'r sector gwirfoddol a Llywodraeth Cymru gydweithio i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd:
 - Angen mwy o ddeialog rhwng Llywodraeth Cymru a'r trydydd sector. Er eu bod yn croesawu COP Cymru, mae galw am fwy o ddigwyddiadau ffisegol a chysylltiadau uniongyrchol ar lefel y gymuned leol.
 - Dylid rhoi ystyriaeth nawr i'r hyn y gellir ei wneud yn ymarferol i gyflawni'r cynllun Sero Net – gan gydnabod yr un pryd bod meddylfryd positif, gweledigaeth glir a newid cyfiawn i gyd yn allweddol.
 - Galw am gydweithio mwy ffurfiol a strwythuredig rhwng Llywodraeth Cymru a'r trydydd sector. Awgrymwyd Deddf Grymuso Cymunedau newydd i sicrhau bod blaenoriaeth i hawliau cymunedau. Cynigiodd y Dirprwy Weinidog y gallai'r trydydd sector ystyried trywydd gwahanol yn lle cyfreithiau newydd, a bod ffyrdd eraill gwell o roi llais cryfach i'r sector megis drwy Lythyrau Cylch Gwaith.
 - Cytuno ar bwysigrwydd cydweithio i droi ymrwymïadau cynllun Sero Net Cymru yn weithredu, megis cadwyni cyflenwi teg, moesegol a chynaliadwy.
 - Cydnabod y problemau i gyrraedd sero net megis argyhoeddi anghredinwyr, maint y dasg sydd o'n blaenau, yr angen i weithredu'n gyflym a phrinder adnoddau ac arian ar gyfer ei gyflawni.
 - Trafod osgoi gwneud penderfyniadau mewn 'seilo', gan gynnwys sut y mae'n hanfodol i bolisiau gwahanol weithio gyda'i gilydd (e.e. polisi tai, yr angen am fannau gwyrdd i greu cymunedau a lleoedd cynaliadwy, sicrhau bod safleoedd wedi'u dylunio'n gywir, ac ysgogi diwygio tir a diwygio'r drefn gynllunio). Cyfeiriodd y Dirprwy Weinidog at enghreifftiau o arfer gorau megis yr agenda uchelgeisiol sydd eisoes ar waith o ran defnyddio tir cyhoeddus.
- Dyma'r prif gamau gweithredu allweddol ddaeth o'r cyfarfod:
 - Sicrhau bod WCVA yn cael cyfle i gyfrannu at y Cynllun Ymgysylltu â Rhanddeiliaid newydd ar gyfer Cymru Sero Net a gyhoeddir yng Ngwanwyn 2022, fydd yn galluogi grwpiau cynrychioliadol o fewn y sector hwn i gyfrannu at lunio polisi Llywodraeth Cymru ar newid yn yr hinsawdd. (Bydd swyddogion yn delio â hyn).

- Estynnodd y Dirprwy Weinidog wahoddiad i fudiadau'r sector roi arweiniad ar brosiectau a rhaglenni i helpu'r daith at fod yn sero net. Awgrymodd y gallai fod yn well gan y rheini yn y cyfarfod ei e-bostio'n uniongyrchol gyda chynigion a syniadau gan y gall hynny weithiau fod yn ffordd well o sbarduno cynnydd na chyfarfod. Cytunodd y Dirprwy Weinidog i ddarparu ei gyfeiriad e-bost uniongyrchol.